

Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Cymraeg

Ebrill 2024 -
Mawrth 2025

Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg Ebrill 2024 – Mawrth 2025

Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyniad
2. Cefndir a'r sefyllfa bresennol
3. Cydymffurfio â'r Safonau yn ystod 2024/25
4. Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg
5. Sgiliau a hyfforddiant y Gymraeg
6. Cwynion
7. Blaenoriaethau'r Dyfodol a Chamau Gweithredu

Atodiadau:

- Atodiad 1 Adnodd Hunanasesu Sgiliau'r Gymraeg
- Atodiad 2 Proffil sgiliau Cymraeg y gweithlu ar 31 Mawrth 2025

Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg

Ebrill 2024 - Mawrth 2025

Crynodeb Gweithredol

Croeso i'n Hadroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg ar gyfer cyfnod 2024/25, sy'n nodi sut ydym ni wedi bodloni'r Safonau. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o'n cyflawniadau allweddol a meysydd lle mae angen i ni wella hefyd.

Rydym yn falch o ddweud, yn ystod y 12 mis diwethaf:

- Rydym wedi cyflwyno prosiect peilot, Pencampwyr Cymraeg, i gydnabod y cyfraniad mae rhai gweithwyr yn ei wneud i hyrwyddo'r Gymraeg a chefnogi eu cydweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg.
- Gan weithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi mabwysiadu enw Cymraeg yn ffurfiol ar gyfer New Brighton - Pentre Cythrel. Mae hyn yn cyfrannu at gynyddu gwelededd y Gymraeg yn y Sir.
- Mae nifer a chanran y gweithwyr sy'n dweud bod eu sgiliau Cymraeg yn cyrraedd lefel 5 wedi cynyddu rhywfaint, o 88 (3.13%) o weithwyr ym mis Mawrth 2022 i 113 (3.80%) ym mis Mawrth 2025.
- Bu cynnydd o ran nifer y defnyddwyr gwasanaeth a fanteisiodd ar Gynnig Rhagweithiol y Gwasanaethau Cymdeithasol ac a oedd yn cael gwasanaeth Cymraeg.
- Lansiwyd [Hwb Cymraeg](#) ar ein gwefan a bellach mae modd dod o hyd i bopeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg mewn un lle. Defnyddiwyd rhywfaint o Gymraeg ar y tudalennau Saesneg fel ffordd o gynyddu gwelededd yr iaith.

Rydym yn gwybod bod angen i ni barhau i wneud cynnydd a'n blaenoriaethau ar gyfer 2025/26 yw:

- Cwblhau a gweithredu ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg a Pholisi'r Gymraeg yn y Gweithle.
- Gweithredu Strategaeth Sgiliau'r Gymraeg a sicrhau cyllid ar gyfer tiwtor y Gymraeg llawn amser.
- Datblygu Hwb Cymraeg newydd ar y fewnrwyd.
- Parhau i gwblhau hunanasesiadau yn erbyn Safonau'r Gymraeg i nodi meysydd diffyg cydymffurfio a lle mae angen i ni wella.
- Parhau i adolygu argymhellion Panel Safoni Enwau Lleoedd Comisiynydd y Gymraeg er mwyn nodi cyfleoedd pellach i gyflwyno enwau Cymraeg yn y Sir.

Neal Cockerton
Prif Weithredwr

Y Cyngorydd Mared Eastwood
Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg,
Diwylliant a Hamdden

Adroddiad Monitro Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2024/25

1.0 Cyflwyniad

- 1.1 Cyflwynodd Comisiynydd y Gymraeg Hysbysiad Cydymffurfio ar y Cyngor yn 2016, yn nodi'r 171 o Safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy. Mae'r safonau yn nodi'r hyn a ddisgwylir i'r Cyngor ei wneud a'i ddarparu yn Gymraeg. Mae Hysbysiadau Cydymffurfio yn unigryw i bob sefydliad ac yn adlewyrchu proffil ieithyddol y gymuned leol a'r capasiti sefydliadol i fodloni'r safonau.
- 1.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn, fel y nodir yn safonau 158, 164 a 170. Mae rhestr lawn o'r safonau y mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â hwy ar gael [yma](#). Mae'r adroddiad hefyd yn cael ei dderbyn yn flynyddol gan Gabinet y Cyngor i'w gymeradwyo cyn ei gyhoeddi.
- 1.3 Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn berthnasol ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025. Mae'n nodi'r camau rydym wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r Safonau a'r meysydd y mae angen i ni eu gwella.

2.0 Cefndir

- 2.1 Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn cadarnhau statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru, ochr yn ochr â'r Saesneg, gan sefydlu fframwaith cyfreithiol i'w gwneud yn ddyletswydd ar gyrf cyhoeddus yng Nghymru i gydymffurfio â safonau newydd y Gymraeg. Mae cyflwyniad Safonau'r Gymraeg yn adeiladu ar yr ymrwymiad blaenorol a wnaed gan y Cyngor gyda'n cynllun iaith Gymraeg blaenorol.
- 2.2 Dyma amcanion y safonau:
 - Gwella'r gwasanaethau y gall siaradwyr Cymraeg ddisgwyl eu derbyn gan sefydliadau yn y Gymraeg
 - Cynyddu'r defnydd y mae pobl yn ei wneud o wasanaethau Cymraeg
 - Ei gwneud yn glir i sefydliadau beth sydd angen iddynt ei wneud o ran yr iaith Gymraeg
 - Sicrhau bod lefel briodol o gysondeb o ran y dyletswyddau a osodir ar gyrf yn yr un sectorau
- 2.3 Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg bwerau i ymchwilio a chymryd camau yn erbyn y sefydliadau hynny sy'n methu â chydymffurfio â'r Safonau. Mae hyn yn cynnwys gosod cosbau ariannol am ddiffyg cydymffurfiaeth.

- 2.4 Y Prif Weithredwr sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. Mae'r Ymgynghorydd Polisi Strategol yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad Safonau'r Gymraeg. Mae ein Rhwydwaith Iaith Gymraeg, Rhwydwaith yr Iaith, yn darparu arweinyddiaeth strategol ac yn cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Addysg ac Ieuencid. Aelod Cabinet Addysg, y Gymraeg, Diwylliant a Hamdden yw Cefnogwr y Gymraeg.
- 2.5 Gellir gwneud cwynion am fethu â bodloni Safonau'r Gymraeg drwy ddefnyddio ein [Gweithdrefn Gwyno](#). Gall gweithwyr fynegi pryderon trwy Bolisi'r Cyngor, Cymraeg yn y Gweithle a Gweithdrefnau Cwyno'r Cyngor.

3.0 Cydymffurfio â'r Safonau yn ystod 2024/25

- 3.1 Mae'n ofynnol i ni adrodd ar ein trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r safonau canlynol:

- Safonau cyflenwi gwasanaethau
- Safonau llunio polisi
- Safonau gweithredol

Mae'r camau a gymerwyd gennym er mwyn cydymffurfio â'r safonau ar gael ar [wefan y Cyngor](#) ac mewn [adroddiadau blynyddol blaenorol](#). Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r camau ychwanegol rydym wedi'u cymryd yn ystod 2024/25.

3.2 Cydymffurfio â Safonau Cyflenwi Gwasanaeth

- 3.2.1 Caiff gweithwyr eu hatgoffa'n rheolaidd am Safonau'r Gymraeg a'u cyfrifoldebau. Rhoddir gwybod i weithwyr newydd am y safonau yn ystod y cyfnod sefydlu, a gofynnir iddynt gwblhau'r modiwl e-ddysgu ar ymwybyddiaeth iaith.

- 3.2.2 Yn ystod 2024/25, mae'r Portffolios wedi parhau i gynnal hunan-asesiadau yn erbyn amrywiaeth o Safonau'r Gymraeg i nodi meysydd i'w gwella. Mae'r hunan-asesiadau yn rhan o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor, 2023-28. Fe wnaethom gwblhau hunanasesiad yn erbyn Safonau pellach hefyd, yn unol â chais Comisiynydd y Gymraeg. Yn sgil hyn, nodwyd dau faes lle'r oedd angen i ni wella:

- i) Datblygu polisi i weithwyr allu gwneud cwynion am ein cydymffurfiaeth â'r Safonau Gweithredol. Mae polisi drafft ar gael bellach a chaiff ei gynnwys yn y Polisi Cymraeg yn y Gweithle wedi'i ddiweddarau.
- ii) Sicrhau bod penderfyniadau ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor ar gael yn Gymraeg yn gyson. Cafodd y tudalennau Cymraeg eu diweddarau i gynnwys fersiwn Gymraeg yr hysbysiad o benderfyniad.

- 3.2.3 Gweithredwyd prosiect peilot newydd, i gyflwyno Pencampwyr Cymraeg, sy'n cydnabod y cyfraniadau mae cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg yn ei wneud, sydd y tu hwnt i rôl eu swyddi, i gefnogi cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo'r Gymraeg. Mae Pencampwyr Cymraeg yn cael taliad ychwanegol am weithgareddau maen nhw wedi'u cyflawni.
- 3.2.4 Yn ystod 2024/25, cafodd 10 tudalen o'n gwefan eu gwirio i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg. Ein Pencampwyr Cymraeg newydd fu'n cyflawni'r gwaith hwn, gan wirio hefyd bod galwadau ffôn yn cael eu hateb yn Gymraeg lle'r oedd y rhifau wedi'u cyhoeddi.
- 3.2.5 Yn ystod 2024/25, ymwelodd 5,375,543 o bobl â fersiwn Saesneg y wefan, a 80,481 o bobl â thudalennau Cymraeg y wefan, a oedd yn gynydd sylweddol o ffigur 2023/24, sef 27,218.
- 3.2.6 Rydym ni hefyd yn monitro nifer yr ymweliadau i'n safleoedd cyfryngau cymdeithasol. Mae canlyniadau 2024/25 wedi'u nodi isod ac maen nhw'n dangos bod angen i ni wneud mwy i annog preswylwyr sy'n siarad Cymraeg i ymweld â'n safleoedd cyfryngau cymdeithasol Cymraeg.

	Facebook		X (Twitter)	
Ystadegyn	Cymraeg	Saesneg	Cymraeg	Saesneg
Ymweliadau	55,768	4,275,571	13,653	385,407
Rhyngweithio â'r cynnwys (ymateb, sylw, rhannu)	163	24,496	Amherthnasol	Amherthnasol
Clicio ar ddolenni	36	15,396	421	7,091
Sylwadau	223	5,404	228	1,747
Cyfradd ymgysylltu	2.93%	1.95%	4.74%	2.37%

- 3.2.7 Mae dewis iaith cwsmeriaid yn cael ei nodi ar y cyswllt cyntaf gyda'r gwasanaethau. Mae Gwasanaethau Cymdeithasol yn hyrwyddo'r "Cynnig Gweithredol" sy'n golygu darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Cafodd 6,969 o asesiadau Gwasanaethau Cymdeithasol eu cwblhau yn ystod 24/25. Roedd tystiolaeth o Gynnig Gweithredol yn 4,293 (62%) o'r asesiadau hynny, a derbyniodd 93 o bobl y cynnig. Mae hyn yn gynydd ers 2023/24, lle'r oedd tystiolaeth o Gynnig Gweithredol yn 3,948 (58%) o asesiadau Gwasanaethau Cymdeithasol, a derbyniodd 45 o bobl y cynnig.

3.2.8 Gwasanaethau a gynigir yn Gymraeg:

Genedigaethau a Phriodasau

	2022/23		2023/24		2024/25	
	Saesneg	Cymraeg	Saesneg	Cymraeg	Saesneg	Cymraeg
Cofrestru genedigaethau	31	2	28	2	23	5 (dwyieithog)
Hysbysiadau o Briodas	1286	6	1233	22	1108	10 (dwyieithog)
Seremonïau Priodas	471	5 (gydag elfen o Gymraeg e.e. cyflwyniad a diwedd glo dwyieithog, addunedau cyfreithiol dwyieithog neu dystysgrifau dwyieithog, ond y seremoni ei hun yn cael ei chynnal yn Saesneg).	472	3 (gydag elfen o Gymraeg)	560	7 (yn Gymraeg neu'n ddwyieithog)

Caiff pob seremoni ei chyflwyno gyda chyfarfarchiad dwyieithog.

Galwadau ffôn

	2022/23		2023/24		2024/25	
Canolfan Gyswllt	Nifer y galwadau a gynigiwyd yn Saesneg	Nifer y galwadau a gynigiwyd yn Gymraeg	Nifer y galwadau a gynigiwyd yn Saesneg	Nifer y galwadau a gynigiwyd yn Gymraeg	Nifer y galwadau a gynigiwyd yn Saesneg	Nifer y galwadau a gynigiwyd yn Gymraeg
Prif Ganolfan Gyswllt	28,685	337	25,358	333	23,820	364
Treth y Cyngor	35,849	52	35,502	49	32,276	41
Ardrethi Busnes	2,480	15	2,318	7	1,975	8
Gorfodi	4,699	8	4,237	15	4,718	11
Mân Ddyledwyr	4,820	57	5,735	53	7,458	119

3.2.9 Mae'r Cyngor yn defnyddio Microsoft Teams i gynnal cyfarfodydd a digwyddiadau dros y we. Gall gweithwyr sy'n trefnu cyfarfodydd neu ddigwyddiadau ar-lein gynnig cyfleusterau cyfieithu ar y pryd, gan sicrhau bod y Safonau perthnasol yn cael eu bodloni.

3.2.10 Rydym wedi gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a phartneriaid, gan gynnwys Menter Iaith Fflint a Wrecsam, y Mudiad Meithrin a Choleg Cambria, i ystyried atebion ar gyfer denu a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg i'n sefydliadau. Roedd hyn yn cynnwys staff yn cymryd rhan mewn fideos hyrwyddol i ddangos sut ydym ni'n cefnogi gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Cafodd y fideos hyn eu lansio yn ystod 2024/25.

3.3 Cydymffurfio â Safonau Llundain Polisi

3.3.1 Rydym wedi gweithio gyda Phrifysgol Manceinion i beilota Adnodd Asesu Effaith newydd sy'n cynnwys canllawiau Comisiynydd y Gymraeg. Mae ein canllawiau ymgynghori wedi'u diweddarau hefyd i adlewyrchu dysg gan gyrrff cyhoeddus eraill a Thribiwnlys y Gymraeg.

3.3.2 Rydym yn darparu grantiau amrywiol a reolir gan sefydliadau eraill ar ein rhan. Mae ffurflenni cais a meini prawf yn ddwyieithog ac yn cynnwys datganiad yn nodi na fydd oedi cyn ymateb i geisiadau a gyflwynir yn Gymraeg.

3.3.3 Nodir isod nifer y ceisiadau am grant a wnaed drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod 2024/25:

Grant	2023/24		2024/25	
	Cyfanswm y Ceisiadau	Nifer y ceisiadau a wnaed yn Gymraeg	Cyfanswm y Ceisiadau	Nifer y ceisiadau a wnaed yn Gymraeg
Cist Gymunedol	40	1	37	0
Cronfa Waddol Gymunedol	11	0	7	1
Cronfa'r Degwm	11	1	14	0

Byddwn yn gwneud mwy yn ystod 2025/26 i annog mwy o geisiadau grant trwy gyfrwng y Gymraeg.

3.3.4 Mae manylion am sut rydym yn cydymffurfio â'r Safonau Lluo Polisi ar gael ar ein [gwefan](#). Mae cyngor ac arweiniad i weithwyr wedi'i gyhoeddi ar fewnwyd y Cyngor.

3.4 Cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol

3.4.1 Mae manylion llawn am sut rydym yn cydymffurfio â'r Safonau Gweithredol ar gael ar ein [gwefan](#).

3.4.2 Mae mwy na 99% o weithwyr wedi cwblhau'r archwiliad sgiliau'r Gymraeg. Gwahoddwyd gweithwyr a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg i weithdai i ailasesu eu lefel sgiliau. Arweiniodd hyn at ostyngiad yn nifer y gweithwyr a ddywedodd nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, o 36.94% o weithwyr ym mis Mawrth 2024 i 33.10% ym mis Mawrth 2025. Bydd pob aelod o staff sy'n dweud nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg yn cael eu gwahodd i gwblhau lefel sylfaenol o gwrteisi Cymraeg yn ystod 2025/26.

3.4.3 Mae'r Polisi Cymraeg yn y Gweithle yn cael ei ddiweddarau. Mae'r polisi hwn yn berthnasol i ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r nod o gynyddu nifer y gweithwyr sy'n siarad Cymraeg ac annog ein gweithwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a thu allan i'r gwaith.

3.4.4 Gofynnir i weithwyr newydd ym mha iaith yr hoffent i'w contract cyflogi gael ei ddarparu. Gall gweithwyr ddewis derbyn gohebiaeth fusnes yn Gymraeg. O ran y contractau a gyflwynwyd i weithwyr newydd yn ystod 2024/25, cafodd saith ohonynt eu darparu yn y Gymraeg.

3.4.5 Mae dogfennau arfarnu wedi eu cyhoeddi ar y fewnwyd yn y Gymraeg. Mae gan weithwyr y dewis o gael cyfweiliadau/cyfarfodydd disgyblu a chwyno yn y Gymraeg. Ni chynhaliwyd unrhyw wrandawriad cwyno na disgyblu yn y Gymraeg yn ystod 2024/25.

3.4.6 Caiff y polisiâu canlynol eu cyhoeddi yn Gymraeg:

- Polisi Rheoli Presenoldeb
- Manteision Gweithio i Gyngor Sir y Fflint
- Polisi Galluogrwydd
- Polisi Diogelu Corfforaethol
- Polisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Polisi Urddas yn y Gwaith
- Polisi Amrywiaeth a Chydraddoldeb
- Ffurflen gais Gweithio'n Hyblyg
- Polisi Oriau Gweithio'n Hyblyg
- Polisi Maethu i Sir y Fflint
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Cymraeg yn y Gweithle

3.5 Trefniadau monitro

3.5.1 Mae ein Rhwydwaith yr Iaith yn cynnwys cynrychiolwyr o bob Portffolio. Mae'r Rhwydwaith yn cwrdd bob chwarter. Ymhlith yr eitemau sefydlog ar y rhaglen mae hyfforddiant y Gymraeg, proffil sgiliau Cymraeg gweithwyr, hyrwyddo'r Gymraeg a chwynion.

3.5.2 Cyflwynir adroddiadau ar gydymffurfiaeth â'r safonau bob mis i'r Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid (fel arweinydd y Gymraeg) a bob chwarter i'n Tîm Prif Swyddogion. Cyflwynir yr adroddiad blynyddol i'r Cabinet ar gyfer cymeradwyaeth cyn ei fabwysiadu.

4.0 Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

4.1 Anogir gweithwyr i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg drwy fynychu hyfforddiant a ddarperir gan y coleg lleol. Cefnogir gweithwyr i fynychu dosbarthiadau o fewn amser gwaith. Mae sesiynau Panad a Sgwrs hefyd yn cael eu cynnal unwaith yr wythnos i gynorthwyo dysgwyr i ymarfer eu Cymraeg mewn amgylchedd diogel. Hwylusir y sesiynau hyn gan siaradwyr Cymraeg.

4.2 Mae'r Pencampwyr Cymraeg yn cefnogi dysgwyr, sy'n ategu gwersi ffurfiol. Mae rhai Pencampwyr Cymraeg wedi cyflwyno slot wythnosol yn eu cyfarfodydd Tîm, er mwyn rhannu geiriau ac ymadroddion newydd gyda'u cydweithwyr.

4.3 Mae Cysgliad (Geiriadur, gwiriwr sillafu a gramadeg Cymraeg) ar gael ac wedi'i uwchlwytho ar ddyfais pob gweithiwr. Caiff ei uwchlwytho'n awtomatig ar ddyfeisiau gweithwyr newydd.

4.4 Mae adnoddau i gefnogi dysgwyr Cymraeg a siaradwyr Cymraeg ar gael ar y fewnwyd ar dudalen ddynodedig ar gyfer dysgwyr Cymraeg. Caiff gweithgareddau a gynhelir yn y gymuned i gefnogi dysgwyr eu hyrwyddo i'r gweithlu.

- 4.5 Er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg mewn ffordd ddifyr, fe wnaeth un o'r Pencampwyr Cymraeg recordio fideos byr i gyfri'r diwrnodau tan y Nadolig, gan gyflwyno gair newydd bob dydd.



- 4.6 Mae adran [Hwb Cymraeg](#) newydd ar gael ar ein gwefan ac mae popeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg i'w weld mewn un lle bellach, er enghraifft, Addysg, Gweithio yng Nghymru, Cymraeg i Fusnesau, Dysgu Cymraeg. Mae'r Hwb yn cyflwyno a defnyddio rhai geiriau Cymraeg yn lle'r gair Saesneg hefyd, fel defnyddio "Cymraeg" yn hytrach na "Welsh language".
- 4.7 Mae Grŵp Tasg a Gorffen wedi'i sefydlu i adolygu argymhellion Panel Safoni Enwau Lleodedd Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r Panel yn darparu cyngor am ffurfiau safonol enwau lleodedd Cymraeg. Sefydlwyd y Grŵp Tasg a Gorffen ar ôl mabwysiadu enw Cymraeg ar bentref yn y Sir. Cafodd yr enw ei fabwysiadu ar ôl i Aelod Etholedig gysylltu â'r Cyngor ar ôl ymgynghori â phreswylwyr a oedd yn cefnogi cael enw Cymraeg ochr yn ochr â'r enw Saesneg. Un o bryderon y preswylwyr oedd ynganiad yr enw Cymraeg. Recordiwyd fideo gyda fhoneg er mwyn i breswylwyr weld a chlywed sut i ynganu'r enw. Cafodd ei chyhoeddi ar Hwb Cymraeg ac ar gyfryngau cymdeithasol.



Byddwn ni'n creu mwy o'r fideos hyn yn ystod 2025/26 i gynorthwyo pobl i ynganu mwy o enwau lleodedd yn y Sir.

4.8 Addysg ac Ieuenctid

- 4.8.1 Mae Datblygu Chwarae Sir y Fflint yn parhau i ddangos ymrwymiad cadarn i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, gan ehangu cyfleoedd i blant chwarae trwy gyfrwng y Gymraeg. Dros y 12 mis diwethaf rydym wedi cynyddu ein capasiti staffio i wyth o aelodau staff llawn amser. Mae pum aelod o'n tîm yn siaradwyr Cymraeg rhugl ac mae tri ohonynt yn dysgu Cymraeg ar wahanol lefelau. Mae'r twf hwn wedi ein galluogi i wella ein cynnig dwyieithog, gan ganiatáu i ni ddarparu sesiynau chwarae Cymraeg a dwyieithog trwy gydol y flwyddyn, ar draws ysgolion, cymunedau a digwyddiadau amrywiol. Yn ystod 2024-2025, darparwyd 16 prosiect gwahanol, a ddaeth i gyfanswm o 1,363 o sesiynau unigol a 2,726 awr o waith chwarae, gan gyrraedd 24,573 o blant. Mae'r estyniad hwn yn cefnogi datblygiad y Gymraeg a helpu i sicrhau bod y Gymraeg yn dod yn rhan hygyrch ac annatod o brofiadau chwarae plant.
- 4.8.2 Trwy ein hamrywiaeth gynyddol o brosiectau, rydym yn gallu hyrwyddo gwaith chwarae a'r Gymraeg gyda'i gilydd. Trwy annog defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau cymunedol, rydym yn helpu i ategu'r dysg mae plant yn ei gael yn yr ysgol, gan eu galluogi i ddefnyddio'r iaith yn eu cymunedau eu hunain. Mae'r dull hwn yn cefnogi'r Gymraeg fel iaith fyw, gan atgyfnerthu ei defnydd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth a meithrin cyswllt mwy dwfn ac ystyrlon â diwylliant a threftadaeth Cymru.
- 4.8.3 Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ymgysylltu pobl ifanc mewn gweithgareddau trwy arddull darparu dwyieithog naturiol, gan annog y bobl ifanc i ddefnyddio a datblygu eu Cymraeg mewn amgylchedd gwaith ieuenctid anffurfiol.
- 4.8.4 Yn dilyn taith breswyl i wersyll Glan-llyn, lle dywedodd y bobl ifanc yr hoffent gael clwb ieuenctid iaith Gymraeg lle gallent ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus, mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn bwriadu cynnig darpariaeth Gymraeg gyflawn.
- 4.8.5 Mae ysgolion cynradd Sir y Fflint yn parhau i groesawu amcanion y Siarter Iaith a Chymraeg Campus, er mwyn cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg. At ei gilydd, mae pedair ysgol wedi cael gwobr Aur Cymraeg Campus, naw ysgol wedi cael gwobr Arian Cymraeg Campus a 44 o ysgolion wedi cael gwobr Efydd Cymraeg Campus. Mae'r 'Ciriwiau Cymraeg' ym mhob ysgol yn gweithio'n galed i bennu blaenoriaethau'r ysgol a helpu gyda phenderfynu ar weithgareddau ar gyfer eu hysgolion, ac mae rhai'n cynnwys cymuned ehangach yr ysgol yn effeithiol.
- 4.8.6 Mae gwaith adeiladu'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd gyntaf i gael ei hadeiladu gan y Cyngor, ers iddo gael ei sefydlu ym 1996 yn mynd rhagddo. Bydd yr ysgol yn disodli Ysgol Croes Atti yn y Fflint. Bydd y campws newydd sbon, "Ysgol Gymraeg Croes Atti" yn cynnig lle i hyd at 240 o ddisgyblion llawn amser. Bydd cyfleuster ar wahân ar gael yno hefyd, yn bwrpasol ar gyfer gofal plant blynyddoedd cynnar, digwyddiadau cymunedol a rhaglen drochi'r Gymraeg. Dechreuodd y gwaith adeiladu ddechrau 2024, a bydd yn cael ei gwblhau yn ystod hydref 2025.

4.9 Digwyddiadau

4.9.1 Trwy gydol y flwyddyn rydym wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau allweddol i hyrwyddo'r Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Diwrnod Shwmae/Su'mae – anogwyd pob aelod o staff i ddweud rhywbeth yn Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg yn ystod cyfarfodydd.
- Diwrnod Hawliau'r Gymraeg – bu i ni gymryd rhan yn y digwyddiad hwn, gan roi negeseuon ar ein cyfryngau cymdeithasol i annog siaradwyr Cymraeg i gysylltu â ni yn Gymraeg.
- Dydd Miwsig Cymru – bu i ni chwarae cerddoriaeth Gymraeg ar linell aros y Ddesg Gymorth TG.
- Dydd Gŵyl Dewi – Dathlwyd diwrnod ein nawddsant yn ein cartrefi gofal a'n cynlluniau gofal ychwanegol, a chynhaliwyd digwyddiadau cymunedol yng nghanol tref yr Wyddgrug.

4.9.2 Rydym yn darparu grant i Fenter Iaith Fflint a Wrecsam er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn y Sir a chynnig gweithgareddau Cymraeg i deuluoedd a dysgwyr.

5.0 Sgiliau a Hyfforddiant y Gymraeg

5.1 Mae sgiliau Cymraeg yn cael eu hunanasesu yn erbyn Fframwaith Hyfedredd y Gymraeg (Atodiad 1). Mae proffil sgiliau Cymraeg gweithwyr yn ôl Portffolio wedi'i nodi yn Atodiad 2. Mae'n dangos bod nifer a chanran y gweithwyr sy'n nodi nad oes ganddyn nhw unrhyw sgiliau Cymraeg wedi lleihau rhywfaint ers mis Mawrth 2024. Ym mis Mawrth 2024, dywedodd 1,109 (36.94%) o weithwyr nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, o'i gymharu â 1,061 (33.10%) o weithwyr a ddywedodd ym mis Mawrth 2025 nad oedd ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg.

5.2 Gwelwyd rhywfaint o gynnydd yn nifer a chanran y gweithwyr sy'n dweud bod eu sgiliau Cymraeg ar lefelau 4 a 5. Dywedodd 105 (3.53%) o weithwyr eu bod ar lefel 4 a dywedodd 113 (3.80%) eu bod ar lefel 5 ym mis Mawrth 2025, o'i gymharu â 102 (3.40%) o weithwyr a ddywedodd eu bod ar lefel 4 a 101 (3.36%) o weithwyr a ddywedodd eu bod ar lefel 5 ym mis Mawrth 2024. Mae'r data'n dangos y bu cynnydd yn ystod y tair blynedd diwethaf o ran nifer y gweithwyr sy'n dweud bod eu sgiliau Cymraeg ar lefel 5.

Sgiliau Cymraeg	2022		2023		2024		2025	
	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Lefel 4	100	3.55%	101	3.42%	102	3.40%	105	3.53%
Lefel 5	88	3.13%	89	3.02%	101	3.36%	113	3.80%

- 5.3 Mae gweithgareddau i ddatblygu gweithlu dwyieithog yn cynnwys mentrau i wella sgiliau ein gweithlu presennol ac i ddenu a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg.

Ar gyfer gweithwyr presennol, rydym wedi bod yn:

- Targedu gweithwyr nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg, er mwyn sicrhau eu bod yn cwblhau'r cwrs blasu e-ddysgu Iaith Gwaith a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol [Cymraeg Gwaith](#).
- Parhau i ganiatáu i weithwyr fynychu hyfforddiant sgiliau Cymraeg.
- Darparu hyfforddiant Cymraeg fel rhan o hyfforddiant Arweinwyr Chwarae.
- Darparu hyfforddiant Cymraeg i'n carfan o brentisiaid.
- Cynnal prosiect i sicrhau bod pob gweithiwr yn cwblhau eu hasesiad sgiliau Cymraeg.

5.4 Hyfforddiant sgiliau Cymraeg

Mae hyrwyddo hyfforddiant y Gymraeg wedi parhau ar draws y gweithlu. Rhoddir amser gyda thâl i weithwyr fynd ar gyrsiau Cymraeg.

Tabl 2: Nifer y gweithwyr sy'n cael hyfforddiant sgiliau'r Gymraeg.

Lefel	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23	2023/24	2024/25
	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer
Sgiliau Ieithyddol Sylfaenol	15	11	4	64	129	89
Mynediad	22	28	28	29	28	21
Sylfaen	6	10	8	7	13	10
Canolradd	2	1	6	9	2	4
Uwch	7	6	3	1	2	3
Gloywi	5	3	0	0	0	0
Cyfanswm	57	59	49	110	174	127

- 5.5 Er mwyn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, mae'n ofynnol i ni adrodd ar y canlynol:

- nifer y gweithwyr a fynychodd gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg.
- os oedd fersiwn Gymraeg o'r cwrs yn cael ei chynnig – nifer a % y gweithwyr a fynychodd y fersiwn Gymraeg.

- 5.6 Mae yna wybodaeth ar dudalennau mewnwyd y Cyngor i hysbysu gweithwyr os ydynt yn dymuno cwblhau unrhyw rai o'r cyrsiau'n Gymraeg i gysylltu â'r Tîm Dysgu a Datblygu Corfforaethol. Mae gan y Cyngor gytundeb anffurfiol gyda Chyngor Gwynedd fod gweithwyr yn mynychu eu cyrsiau cyfrwng Cymraeg.

Mae nifer y gweithwyr a fynychodd gyrsiau penodol yn Gymraeg wedi'i nodi yn y tabl canlynol:

Tabl 3: Proffil hyfforddiant a ddarparwyd drwy gyfrwng y Gymraeg

	2022/23		2023/24		2024/25	
Math o Hyfforddiant	Nifer a fynychodd y fersiwn Gymraeg	Nifer a fynychodd y fersiwn Saesneg	Nifer a fynychodd y fersiwn Gymraeg	Nifer a fynychodd y fersiwn Saesneg	Nifer a fynychodd y fersiwn Gymraeg	Nifer a fynychodd y fersiwn Saesneg
Cwynion a gweithdrefnau disgyblu	0	129	0	153	0	8
Delio â'r cyhoedd	0	0	0	0	0	0
Iechyd a Diogelwch	0	34	0	136	0	42
Rhaglen Gynefino	0	0	0	24	0	0
Rheoli Perfformiad	0	0	0	9	0	0
Recriwtio a Chyfweld	0	0	0	0	0	0

5.7 Cwrs Ymwybyddiaeth Iaith – mae 469 o weithwyr wedi cwblhau ein modiwl e-ddysgu. Mae cwrs “Welsh matters for everyone” a chwrs dilynol i reolwyr, sef “Welsh matters for managers” ar gael hefyd. Mae'r cwrs yn cael ei ddarparu gan iaith, y Ganolfan Cynllunio Iaith. Nod y rhaglenni hyn yw dangos pwysigrwydd defnyddio'r iaith yn y gweithle a sut i annog pobl i wneud hynny.

5.8 Mae proses ar waith i asesu'r sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer swyddi newydd. Datblygwyd dull o gofnodi'r nifer o swyddi sydd wedi eu hasesu fel dymunol neu hanfodol. Mae'n ofynnol i'r Cyngor ddatgan nifer y swyddi newydd a gwag a gafodd eu categorio fel swyddi lle:

- i) Roedd sgiliau Cymraeg yn hanfodol.
- ii) Roedd angen dysgu Cymraeg ar ôl penodiad.
- iii) Roedd y Gymraeg yn ddymunol.
- iv) Nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.

Mae'r data ar gyfer 2024/25 wedi ei nodi isod:

Categori	Nifer y swyddi wedi'u categorïddio	Canran y swyddi wedi'u categorïddio
Y Gymraeg yn hanfodol	3	6.39%
Y Gymraeg yn ddymunol	43	91.49%
Angen dysgu Cymraeg	1	2.12%
Dim angen sgiliau Cymraeg	0	0.00%

O gymharu â'r blynyddoedd blaenorol:

Categori	Nifer							
	16/17	17/18	18/19	19/20	20/21	21/22	22/23	23/24
Y Gymraeg yn hanfodol	17	8	14	2	3	4	1	5
Y Gymraeg yn ddymunol	9	40	42	12	2	2	0	27
Angen dysgu Cymraeg	0	0	0	0	9	0	0	0
Dim angen sgiliau Cymraeg	277	185	207	66	46	46	40	13

6.0 Cwynion

- 6.1 Mae gwefan y Cyngor yn cynghori pobl bod y polisi Cwynion hefyd yn berthnasol i gwynion am y Gymraeg, ac mae unrhyw gwynion o'r fath yn cael eu copïo fel mater o drefn i'r Ymgynghorydd Polisi Strategol i'w monitro. Mae'r weithdrefn Gwynion i'w gweld [yma](#).
- 6.2 Mae cwynion am y Gymraeg yn eitem sefydlog yng nghyfarfodydd Rhwydwaith yr Iaith.
- 6.3 Yn ystod 2024/25, cafwyd dwy gŵyn uniongyrchol:
1. Cafodd cwsmer ymateb Saesneg i ymholiad a gyflwynwyd yn Gymraeg. Rhoddwyd ymddiheuriad i'r cwsmer ac atgoffwyd y tîm am bwysigrwydd ymateb yn Gymraeg i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg. Mae'r system berthnasol wedi'i diweddarau i ail-lenwi'r meysydd "Response Given" a "Draft Response" gyda ***Response Must Be in WELSH***, pan fo'r cwsmer wedi mynegi mai Cymraeg yw'r dewis iaith.

2. Cwynodd cwsmer nad oedd y Gymraeg yn gywir ac nad oedd yn cyd-fynd â'r Saesneg ar sticer ar Fin Du. Rhoddwyd ymddiheuriad i'r cwsmer a newidiwyd y sticer.

6.4 Gwnaed un gŵyn yn uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg. Nodir manylion y gŵyn hon isod:

Cwynion a wnaed yn uniongyrchol i Gomisiynydd y Gymraeg		
Maes Gwasanaeth	Manylion	Canlyniad a'r camau a gymerwyd
Gwella – gwefan	Sylwodd cwsmer nad oedd y Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal â'r Saesneg ar rai o dudalennau gwefan Gwella ac mai dim ond Saesneg oedd ar rai adrannau.	Cywirodd Gwella eu gwefan gan atgoffa eu huwch reolwyr am bwysigrwydd cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Penderfynodd Comisiynydd y Gymraeg na fyddai'n ymchwilio ymhellach.

7.0 Blaenoriaethau'r Dyfodol a Chamau Gweithredu

7.1 Ein Blaenoriaethau ar gyfer 2025/26:

- Cwblhau ein Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg a Pholisi'r Gymraeg yn y Gweithle.
- Gweithredu'r Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg a cheisio cyllid ar gyfer tiwtor Cymraeg llawn amser gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- Datblygu Hwb Cymraeg newydd ar y fewnrwyd.
- Parhau i gwblhau hunanasesiadau yn erbyn Safonau'r Gymraeg i nodi meysydd diffyg cydymffurfio a lle mae angen i ni wella.
- Parhau i adolygu enwau lleoedd yn Sir y Fflint yn unol ag argymhellion y Panel Safoni Enwau Lleoedd.

Atodiad 1 ADNODD HUNANASESU SGILIAU'R GYMRAEG

	GWRANDO / SIARAD	DARLLEN / DEALL	YSGRIFENNU
LEFEL 0	Dim gallu sylweddol	Dim gallu sylweddol	Dim gallu sylweddol
LEFEL 1	Rwy'n gallu: - Ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau ac ati. - Cyfarch a deall cyfarchiad. - Defnyddio geiriau ac ymadroddion sylfaenol a ddefnyddir bob dydd, e.e. diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi ac ati. - Deall / trosglwyddo ceisiadau llafar syml o fath arferol / cyfarwydd / rhagweladwy gan ddefnyddio iaith syml, e.e. 'Ga i siarad â...'. ' - Nodi ceisiadau syml a dilyn cwestiynau / ceisiadau ychwanegol mewn ffordd gyfyngedig	Rwy'n gallu: Deall geiriau a brawddegau allweddol syml ar faterion cyfarwydd / rhagweladwy sy'n ymwneud â maes fy swydd fy hun, e.e. ar arwyddion, mewn llythyrau.	Rwy'n gallu: Llenwi ffurflenni syml, nodi gwybodaeth syml, e.e. dyddiad a lleoliad cyfarfod, cyfeiriad Cymraeg, ac ati.
LEFEL 2	Rwy'n gallu: - Deall prif bwyntiau sgysiau Cymraeg yn y gwaith - Ymateb i geisiadau syml yn ymwneud â swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol - Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebion syml - Mynegi barn mewn ffordd gyfyngedig cyhyd â bod y pwnc yn un cyfarwydd - Deall cyfarwyddiadau pan gaiff iaith syml ei defnyddio	Rwy'n gallu: Deall gwybodaeth ffeithiol, arferol a phrif bwyntiau gwybodaeth anarferol ar faterion cyfarwydd sy'n gysylltiedig â maes fy swydd fy hun, e.e. mewn llythyrau safonol, taflenni, ac ati.	Rwy'n gallu: Ysgrifennu nodiadau / llythyrau / negeseuon syml byr ar ystod gyfyngedig o bynciau rhagweladwy sy'n gysylltiedig â'm profiadau personol neu faes fy swydd fy hun
LEFEL 3	Rwy'n gallu: - Deall llawer o'r hyn a ddwedir mewn swyddfa, cyfarfod ac ati. - Cynnal sgwrs syml ar bwnc sy'n gysylltiedig â gwaith, ond efallai y bydd angen troi i'r Saesneg i drafod / adrodd ar wybodaeth gymhleth neu dechnegol - Ateb cwestiynau rhagweladwy neu ffeithiol - Cymryd a throsglwyddo'r mwyafrif o negeseuon sy'n debygol o fod angen sylw - Cynnig cyngor ar faterion syml sy'n ymwneud â'r swydd	Rwy'n gallu: - Sganio testunau am wybodaeth berthnasol - Deall tipyn o ohebiaeth arferol ac anarferol sy'n gysylltiedig â'r swydd, llenyddiaeth ffeithiol, ac ati pan ddefnyddir iaith safonol.	Rwy'n gallu: - Ysgrifennu llythyr manwl / disgrifiadol yn ymwneud â maes fy swydd fy hun, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg ei wirio - Gwneud nodiadau eithaf cywir tra bydd rhywun yn siarad
LEFEL 4	Rwy'n gallu: - Cynnal sgwrs estynedig am dipyn o bopeth yn ymwneud â gwaith neu roi cyflwyniad yn gymharol rugl gan allu mynegi fy hun yn eithaf eang ond efallai y byddai angen troi at y Saesneg i ateb cwestiynau annisgwyl neu egluro pwyntiau cymhleth neu wybodaeth dechnegol - Cyfrannu'n effeithiol at gyfarfodydd a seminarau o fewn eich maes gwaith - Dadlau o blaid/yn erbyn achos	Rwy'n gallu: Darllen a deall gwybodaeth yn eithaf cyflym cyn belled nad oes geirfa anarferol yn cael ei ddefnyddio ac nad yw'r wybodaeth yn benodol gymhleth neu dechnegol	Rwy'n gallu: - Paratoi llythyrau ffurfiol o lawer o fathau cyfarwydd fel ymholiadau, cwynion a cheisiadau - Gwneud nodiadau eithaf cywir mewn cyfarfodydd neu gyfarwyddiadau syml - Ysgrifennu adroddiad / dogfen yn ymwneud â maes fy swydd fy hun, ond bydd angen i siaradwr Cymraeg ei wirio
LEFEL 5	Rwy'n gallu: - Cynghori / siarad am faterion arferol, anarferol, cymhleth, dadleuol neu sensitif sy'n gysylltiedig â fy mhrofiadau fy hun - Rhoi cyflwyniad/ arddangosiad - Delio'n hyderus gyda chwestiynau anghyfeillgar neu annisgwyl - Cynnal trafodaethau gan ddefnyddio termau cymhleth / technegol - Cynnal cyfweiliadau â'r cyfryngau	Rwy'n gallu: Deall syniadau cymhleth a gwybodaeth a fynegir mewn cyd-destun neu iaith arbenigol mewn dogfennau, adroddiadau, gohebiaeth ac erthyglau ac ati.	Rwy'n gallu: - Ysgrifennu llythyrau ar unrhyw bwnc - Ysgrifennu nodiadau cywir / llawn mewn cyfarfodydd wrth barhau i ddilyn trafodaethau a chymryd rhan ynddynt - Ysgrifennu adroddiadau / dogfennau yn hyderus, ond efallai bydd angen eu gwirio am fân wallau o ran sillafu a gramadeg

Atodiad 2: Proffil sgiliau Cymraeg y gweithlu ar 31 Mawrth 2025

Portffolio	Nifer y Staff	Lefel 0		Lefel 1		Lefel 2		Lefel 3		Lefel 4		Lefel 5		Heb ei gwblhau	
		Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%	Nifer	%
Prif Weithredwyr	64	8	12.50 %	37	57.81 %	8	12.50 %	4	6.25 %	4	6.25 %	3	4.69 %	0	0.00 %
Addysg ac Ieuencid	305	63	20.66 %	123	40.33 %	51	16.72 %	23	7.54 %	18	5.90 %	25	8.20 %	2	0.66 %
Llywodraethu	213	20	9.39 %	129	60.56 %	38	17.84 %	6	2.82 %	9	4.23 %	11	5.16 %	0	0.00 %
Tai a Chymunedau	329	108	32.83 %	146	44.38 %	39	11.85 %	14	4.26 %	11	3.34 %	10	3.04 %	1	0.30 %
Pobl ac Adnoddau	193	12	6.22 %	116	60.10 %	37	19.17 %	9	4.66 %	10	5.18 %	9	4.66 %	0	0.00 %
Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi	210	31	14.76 %	115	54.76 %	30	14.29 %	10	4.76 %	12	5.71 %	8	3.81 %	4	1.90 %
Gwasanaethau Cymdeithasol	1,148	464	40.42 %	410	35.71 %	164	14.29 %	34	2.96 %	34	2.96 %	36	3.14 %	6	0.52 %
Gwasanaethau Stryd a Chludiant	514	279	54.28 %	164	31.91 %	39	7.59 %	8	1.56 %	7	1.36 %	11	2.14 %	6	1.17 %
Cyfanswm	2,976	985	33.10 %	1,240	41.67 %	406	13.64 %	108	3.63 %	105	3.53 %	113	3.80 %	19	0.64 %